O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2019 Rhif 1174 (Cy. 205)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Amryw o Strydoedd, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho) 2019

Gwnaed	*23 Gorffennaf 2019*
Yn dod i rym	*25 Gorffennaf 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Amryw o Strydoedd, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho) 2019 a daw i rym ar 25 Gorffennaf 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Abertawe i Fanceinion yn Llanymddyfri; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Amryw o Strydoedd, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros,

(**1**) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Llwytho a Dadlwytho) 2019" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho neu ddadlwytho ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Esemptiad

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio:

(ii) (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

4.Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**2**);

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(**2**) 2003 p.21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p.30).

(c) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddi;

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu;

(e) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio:

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Amrywiad

5. Caiff Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Llanymddyfri) (Cyfyngu ar Aros) 1973(**3**) ei amrywio er mwyn iddo beidio â bod yn gymwys bellach i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Gorffennaf 2019

Sheena Hague
Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(**3**) O.S. 1973/1674.

YR ATODLEN

Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 15 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Berllan, hyd at bwynt 17 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 21 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Bont, hyd at bwynt 11 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.